# Y Grŵp Trawsbleidiol ar y Ddeddf Teithio Llesol
# Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 4 Mehefin 2020
# 4.00pm – 5.00pm drwy Microsoft Teams

**Yn bresennol ac ymddiheuriadau:** Gweler y rhestr atodedig

**Croeso a chyflwyniadau:** Croesawodd Huw Irranca-Davies AS (Cadeirydd) bobl i'r cyfarfod. Esboniodd wrth y cyfranogwyr sut y mae Teams yn gweithio a sut y gallent ymyrryd. Yna, cyflwynodd y siaradwr gwadd.

**Trafodaeth ar bwysigrwydd teithio llesol i'r system drafnidiaeth ar ôl llacio'r cyfyngiadau symud yng Nghymru:** Eglurodd Lee Waters AS, Dirprwy Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth, y camau yr oedd yn eu cymryd i ehangu'r ddarpariaeth teithio llesol, dros dro ac yn fwy hirdymor, wrth i'r cyfyngiadau symud gael eu llacio. Dywedodd fod pob awdurdod lleol yng Nghymru wedi gwneud cais am rywfaint o'r arian oedd ar gael, i'r fath raddau bod gormod o alw am y gronfa na'r arian sydd ar gael. Fodd bynnag, nid oedd pob cynnig yn bodloni'r meini prawf, er enghraifft dim ond prosiectau newydd fyddai'n cael eu hariannu. Mewn ymateb i gwestiynau am yr amser a gymerir i gyflawni pethau, dywedodd ei fod yn rhannu rhwystredigaeth pobl a soniodd am y problemau sy'n deillio o ddiffyg adnoddau, yn enwedig arbenigedd, ar lefel genedlaethol a lleol.

Dywedodd y byddai'r tasglu sy'n ystyried gosod terfyn cyflymder o 20mya fel y dewis cyntaf ledled Cymru yn cyflwyno adroddiad ar ddiwedd y mis. Mae'r dyddiad terfynol i awdurdodau lleol gyflwyno eu cynlluniau newydd ar gyfer eu rhwydweithiau teithio llesol yn y dyfodol (Mapiau Rhwydwaith Integredig yw'r enw presennol ond bydd yr enw newydd cyn bo hir fydd Mapiau Rhwydwaith Teithio Llesol) wedi'i newid i fis Medi 2021. Pwysleisiodd bwysigrwydd y broses ymgysylltu ar gyfer y mapiau newydd, a byddai'n rhoi cymorth canolog i awdurdodau lleol er mwyn sicrhau eu bod yn gallu ymgysylltu â phobl nad ydynt yn defnyddio dulliau teithio llesol ar hyn o bryd. Roedd tystiolaeth o ymgysylltu effeithiol hefyd yn bwysig o ran darbwyllo aelodau etholedig i gefnogi mesurau y byddent, fel arall, o'r farn eu bod yn rhy amhoblogaidd yn etholiadol. Byddai system fapio newydd ar waith hefyd. Mewn ymateb i gwestiwn am ansawdd y ceisiadau ar gyfer y Gronfa Teithio Llesol, cytunodd y Dirprwy Weinidog y dylai'r grŵp trawsbleidiol weld y meini prawf a'r broses werthuso a ddefnyddir gan Trafnidiaeth Cymru a gwneud sylwadau arnynt, ar gyfer cyfrannau yn y dyfodol.

Yn y drafodaeth, codwyd y prif faterion a ganlyn: Mae angen monitro'r seilwaith dros dro yn effeithiol, gan gynnwys defnyddio peiriannau cyfrif beiciau. Rhaid i newidiadau i'r ffordd y mae plant yn teithio i'r ysgol fod yn rhan bwysig o unrhyw strategaeth drafnidiaeth ar ôl llacio'r cyfyngiadau symud – awgrymwyd y dylai'r grŵp trawsbleidiol drafod y mater â'r Gweinidog Addysg. Dylai economi Cymru gysoni ei hun ag arferion teithio llesol, gan addasu rhywfaint o'r capasiti gweithgynhyrchu at ddiben cynhyrchu beiciau a sgwteri, yn hytrach na chynhyrchion llai cynaliadwy. Roedd angen gwella'r cydgysylltiad ymhlith awdurdodau lleol, yn enwedig o ran llwybrau trawsffiniol. Saith mlynedd ar ôl i'r Ddeddf Teithio Llesol ddod yn gyfraith, roedd llawer o waith manwl yn dal i gael ei wneud i sicrhau ei fod yn cael effaith, ond roedd y darpariaethau ar gyfer gwella cyfleusterau i gerddwyr a beicwyr wrth greu a chynnal priffyrdd a darpariaethau ar gyfer gwaith stryd yn dal i beidio â chael eu gorfodi. Mae gwir angen ymrwymiad trawsbleidiol i ddatblygu teithio llesol yn effeithiol ym maniffestos 2021.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Dirprwy Weinidog am ei gyfraniad at y cyfarfod.

## Cytunwyd ar y pwyntiau gweithredu a ganlyn:

**Teithio llesol a'r drefn bywyd newydd**
Yn ystod y cyfarfod, trafodwyd ystod o fesurau sydd eu hangen fel y gall teithio llesol gymryd lle cynifer o deithiau car â phosibl, wrth i'r cyfyngiadau symud gael eu llacio. Cytunwyd y dylid drafftio llythyr at y Prif Weinidog yn rhestru ein gofynion ac y dylid cael cytundeb a llofnod amrywiaeth eang o sefydliadau cefnogol. Yr hyn sy'n allweddol yn eu plith fydd ymgyrch i hyrwyddo newid moddol o'r car i gerdded a beicio.

**Maniffesto teithio llesol**
Cytunwyd y dylai aelodau a chefnogwyr y Grŵp ddatblygu rhaglen teithio llesol ar y cyd, gyda'r bwriad o'i chynnwys ym maniffestos y pleidiau ar gyfer etholiad y Senedd yn 2021.

**Croesi ffiniau siroedd**
Dylai'r Grŵp Trawsbleidiol ar y Ddeddf Teithio Llesol helpu i hwyluso rhwydweithio ymysg cynghorau cyfagos gyda'r bwriad o ddatblygu cysylltiadau teithio llesol gwell. Yn benodol, dylid cysylltu â Network Rail i helpu i hwyluso llwybr rhwng Penarth a Chaerdydd.

**Adolygiad o ganllawiau'r Ddeddf Teithio Llesol:** Mewn sawl ffordd, y canllawiau yw'r rhan bwysicaf o'r Ddeddf, gan eu bod yn nodi sut y bydd dyletswyddau'r Ddeddf yn cael eu cyflawni ac yn pennu'r safonau ar gyfer y seilwaith. Anogwyd cyfranogwyr i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad ar yr adolygiad diweddar o'r canllawiau. Y dyddiad cau ar gyfer ymateb yw 19 Mehefin 2020. Ceir lincs isod i adnoddau ar gyfer ymateb i'r ymgynghoriad.

**Diolchodd y Cadeirydd i bawb am gymryd rhan a daeth â'r cyfarfod i ben.**

## Adnoddau
Rhannodd nifer o gyfranogwyr lincs i adnoddau defnyddiol:

**Ymgyrch Choose Cycling**
"Yn ddiweddar, mae Beicio Cymru wedi lansio ymgyrch Choose Cycling, gyda'r bwriad o hyrwyddo beicio a chefnogi mwy o bobl i ddewis beicio fel y drefn bywyd newydd.
Byddai'n wych pe gallai awdurdodau lleol gefnogi'r ymgyrch drwy lawrlwytho'r pecyn cymorth er mwyn helpu i fframio cynnwys sy'n gysylltiedig â beicio yn yr awdurdod ar y cyfryngau cymdeithasol o safbwynt teithio llesol a hamdden." Cewch ragor o wybodaeth a lawrlwytho'r pecyn cymorth yma: https://www.britishcycling.org.uk/news/article/20200601-welsh-cycling-news-Cycling-resurgence-of-likes-we-haven%E2%80%99t-seen-since-the-%E2%80%982012%E2%80%99-boom-0 "

Mae **Cycling UK** wedi cydweithio â Widen My Path i greu system sy'n galluogi pobl i ddangos i'w cyngor lle y mae angen lle diogel arnynt i gadw pellter cymdeithasol
https://www.cyclinguk.org/covid-19-safe-space-socialdistancing#WMP

Mae ganddo hefyd gynllun addas i gyflogwyr gyda gwybodaeth ddefnyddiol am sut i annog gweithwyr i gymudo'n fwy cynaliadwy https://www.cyclinguk.org/cyclefriendlyemployer

**Adolygiad o ganllawiau'r Ddeddf Teithio Llesol**

Mae manylion am sut i ymateb i'r ymgynghoriad a'r ddogfen lawn, 459 tudalen o hyd, ar gael yma: https://llyw.cymru/canllawiau-teithio-llesol

Gallwch hefyd lawrlwytho cyflwyniad PowerPoint ar yr ymgynghoriad o wefan Sefydliad y Peirianwyr Sifil (Sgroliwch i lawr a chliciwch ar Download event materials).
https://www.ice.org.uk/eventarchive/consultation-on-update-active-travel-act

19 Mehefin 2020 yw'r dyddiad cau ar gyfer ymatebion.

| Grŵp Trawsbleidiol ar y Ddeddf Teithio Llesol - Rhestr bresenoldeb | | |
|---|---|---|
| **Enw cyntaf** | **Cyfenw** | **Sefydliad** |
| Anne | Adams-King | Beicio Cymru |
| Ken | Barker | Cycling UK |
| Ioan | Bellin | Helen Mary Jones AS |
| Gail | Bodley Scott | Cyngor Caerdydd |
| Rebecca | Brough | Y Cerddwyr |
| Lindsey | Brown | Cyngor Caerdydd |
| Neil | Canham | Sustrans Cymru |
| Joseph | Carter | British Lung Foundation |
| Dan | Coast | Casnewydd Community Cycling |
| Carmel | Condon | Helen Mary Jones AS |
| Deborah | Davies | John Griffiths AS |
| Sian | Donovan | Pedal Power |
| Ryland | Doyle | Mike Hedges AS |
| Lisa | Evans | Llywodraeth Cymru |
| Richard | Evans | Hyfforddiant Beicio Cymru |
| Christine | Farr | Rhwydwaith Ysgolion Iach Cymru |
| Catherine | Floyd | Iechyd Cyhoeddus Cymru |
| Ben | George | Cyngor Abertawe |
| Matthew | Gilbert | Trafnidiaeth Cymru |
| John | Griffiths AS | Senedd Cymru |
| Owain | Griffiths | Cardiff Cycle City |
| Natalie | Grohmann | Llywodraeth Cymru |
| Huw | Irranca-Davies AS | Senedd Cymru |
| Margaret | Jones | Cardiff Cycle City |
| Richard | Keatinge | Beicio Bangor |
| Peter | King | Cyngor Bro Morgannwg |
| Jane | Lorimer | Llywodraeth Cymru |
| Hugh | Mackay | Cycling UK Bro Morgannwg |
| John | Mather | Cycling UK (Gogledd Cymru) |
| Mathew | Norman | British Lung Foundation |
| Gwenda | Owen | Cycling UK |
| Matt | Price | Cyngor Caerdydd |
| Jenny | Rathbone AS | Senedd Cymru |
| Chris | Roberts | Grŵp Trawsbleidiol ar y Ddeddf Teithio Llesol |
| John | Sayce | Wheelwrights |

| | | |
|---|---|---|
| Phil | Snaith | Fforwm Beicio Sir Gaerfyrddin |
| Lee | Waters AS | Llywodraeth Cymru |
| Tom | Wells | bikebikebike |
| Caro | Wild | Cyngor Caerdydd |

| Grŵp Trawsbleidiol ar y Ddeddf Teithio Llesol – Ymddiheuriadau | | |
|---|---|---|
| **Enw cyntaf** | **Cyfenw** | **Sefydliad** |
| Llyr | Gruffydd AS | Senedd Cymru |
| Ken | Hedges AS | Senedd Cymru |
| Delyth | Jewell AS | Senedd Cymru |
| David | Naylor | Wheelwrights |